



Y PROSIECT

Adeilad 53

Y CLEIENT

AUK

GWERTH Y CONTRACT

£2.1M

Y NOD

Roedd y prosiect cymhleth yma'n cynnwys troi'r hen dŷ boeler yn gyfleuster swyddfa fodern i gynnwys adran adnoddau safle AUK. Chwalwyd adeiladau'r hen dŷ boeler yn ystod y cynllun. Roedd pobl wedi galw'r rhain yn ddolur llygad yn y gorffennol i unrhyw un fyddai'n eu gweld o Ffordd Gaer. Roedd camau graddol y prosiect yn sicrhau bod modd symud defnyddwyr y cyfleusterau i rywle newydd drwy gydol yr amrywiol gamau adeiladu a chwalu.





Hollingsworth Group (UK) Ltd
St. Ives Way
Engineer Park
Sandycroft
Sir y Fflint CH5 2QS

Ffôn: 01244 539922

Ffacs: 01244 538504

www.hollingsworthgroup.co.uk

Y DULL

Roedd angen gweithredu'r prosiect mewn camau. Yn gyntaf cryfhawyd y sylfeini a gosodwyd gwaith dur strwythurol i mewn i'r ffrâm oedd yno'n barod ar gyfer yr ystafelloedd ar y llawr cyntaf a'r ail lawr. Cychwynnodd y prif waith chwalu tra bo'r adeilad yn y cefn yn dal i gael ei ddefnyddio a pharhaodd y gwaith adeiladu nes bo'r defnyddwyr wedi eu symud oddi yno. Yna cafwyd gwaith chwalu cymhleth yr adeiladau cefn oedd yn cynnwys cryfhau'r strwythurau gerllaw i alluogi iddynt gael eu chwalu'n ddiogel heb effeithio ar adeilad 53. Roedd y brif raglen adeiladu ar ei champau terfynol er nad oedd modd cwblhau'r gwaith cladin ar un wal am ei fod yn rhy agos - 800mm - at y gwaith chwalu.

Y CANLYNIADAU

Llwyddwyd i drosglwyddo'r prosiect a dechrau defnyddio'r adeilad yn unol â'r rhaglen adeiladu. Gweithiodd y cam chwalu proffil uchel yn unol â'r cynlluniau heb amharu ar y cyfleuster newydd na derbyn cwynion gan y gymuned leol.

Yn dilyn hynny bu Hollingsworth Ellery yn trafod sut i osod cynllun y llawr gwaelod ar gyfer adran reprograffeg ac archifo AUK.

CRYNODEB

Roedd AUK wrth eu boddau gyda'r cyfleuster newydd a'r ffordd yr oedd yn edrych o fewn y gymdogaeth.

Cafodd y prosiect ei enwebu gan Gyngor Sir y Fflint ar gyfer Gwobrau Rhagoriaeth am Adeiladu Rheolaeth Adeiladu Gogledd Cymru 2014 yn y categori datblygiad masnachol.

Cytunwyd ar y cyfrif terfynol o fewn cyllideb y cleient.